

Gwefannau defnyddiol

<http://www.bbc.co.uk/schools/parents/resources/>

www.mathszone.co.uk

<http://www.woodlands-junior.kent.sch.uk/maths/>

<http://www.coolmath4kids.com/>

http://www.comberps.newtownards.ni.sch.uk/maths_games_for_ks1.htm

<http://www.year2maths.co.uk/numberfacts/num1/make10/make10.htm>

www.mangahigh.com

www.parentsintouch.co.uk


Mae mathemateg o'n cwrpas ymhobman ac rydym yn ei ddefnyddio bob dydd!

Bydd llawer ohonoch yn gwneud y gweithgareddau mathemategol hyn ac yn ymarfer sgiliau rhif eich plant yn barod, heb feddwl am y peth!

Y peth pwysicaf yw gwneud dysgu mathemateg yn HWYL!

Llyfryn 6

Helpu eich plant yn
gyda Mathemateg



Beth bynnag wnewch chi, gwnewch yn siŵr fod eich plant yn **MWYNHAU Mathemateg!** Os ydynt yn cael trafferth deall, yn gwneud camgymeriadau neu'n diflasu, cadwch eich pwyll, gwnewch y gwaith yn haws, newidiwch y pwnc, dweud jôc, chwarae pêl-droed neu fynd i'r parc ond peidiwch â mynd yn flin na diamynedd - gallech wneud iddynt gasáu mathemateg am byth!

Adio

Bydd disgyblion yn ymestyn y dull cario i gynnwys unrhyw nifer o ddigidau

$$\begin{array}{r} 7648 \\ + 1486 \\ \hline 9134 \\ 111 \end{array}$$

$$\begin{array}{r} 6584 \\ + 5848 \\ \hline 12432 \\ 111 \end{array}$$

$$\begin{array}{r} 42 \\ 6432 \\ 786 \\ 3 \\ + 4681 \\ \hline 11944 \\ 121 \end{array}$$


Tynnu

Bydd disgyblion yn ymestyn y dull cario i gynnwys unrhyw nifer o ddigidau

$$\begin{array}{r} 5131 \\ \cancel{6467} \\ - 2684 \\ \hline 3783 \end{array}$$

Os yw'r rhifau yn agos at ei gilydd neu'n agos at luosrifau o 10, 100 neu 1000, dylai'r disgyblion ddefnyddio llinell rifau

$$3002 - 1997 = 1005$$



Gweddillion

Lluniwch grid 6 x 6 fel hyn

82	33	60	11	73	22
65	12	74	28	93	51
37	94	57	13	66	38
19	67	76	41	75	85
86	29	68	58	20	46
50	69	30	78	59	10

Dewiswch dabl 7, 8 neu 9.

- ♦ Cymerwch eich tro.
- ♦ Rholiwch ddis.
- ♦ Dewiswch rif ar y bwrdd, e.e. 59. Rhannwch y rhif â rhif y tabl, e.e. 7. Os yw gweddill $59 \div 7$ yr un peth â'r rhif ar y dis, gallwch roi cownter neu ddarn arian dros y rhif ar y bwrdd.
- ♦ Y cyntaf i gael tri o'u cownteri mewn llinell syth sy'n ennill!

Dyblu a threblu


Rholiwch ddau ddis.

Lluoswch y ddau rif i gael eich sgôr.

Rholiwch un o'r disiau eto. Os yw'n eilrif, dyblwch eich sgôr. Os yw'n odrif, treblwch eich sgôr.

Cadwch gofnod o'ch sgôr wrth ichi fynd.

Y cyntaf i gyrraedd mwy na 301 sydd yn ennill.



Dyma amryw o gemau rhif y gallwch annog eich plant i'w chwarae - beth am chwarae fel teulu?

Pedwar mewn llinell

Llunwch grid 6 x 7, fel hyn:

26	54	47	21	19	5	38
9	25	67	56	31	49	13
39	41	6	1	75	28	90
14	50	81	23	43	4	37
45	29	72	34	7	58	17
36	2	55	11	22	40	42

Llanwch y grid â rhifau o dan 100.

- Cymerwch eich tro
- Rholiwch 3 dis
- Defnyddiwch bob un o'r tri rhif i greu rhif sydd ar y grid.
- Gallwch adio, tynnu, lluosu neu rannu'r rhifau,
- e.e. os ydych yn rhoio 3, 4 a 5, gallwch wneud $3 \times 4 - 5 = 7$, $54 \div 3 = 18$, $(4 + 5) \times 3 = 27$, ac yn y blaen.
- Rhowch ddarn o arian neu gownter dros y rhif a grëwch.
- Y cyntaf i gael pedwar cownter mewn llinell syth sy'n ennill.

Lluosi


Bydd disgyblion yn datblygu ac yn adeiladu ar ddull y grid a ddefnyddiwyd yn flaenorol

235×24

Children will approximate first
 235×24 is approximately $240 \times 20 = 4800$

x	200	30	5	
20	4000	600	100	4000
4	800	120	20	+ 600
				+ 100
				+ 800
				+ 120
				+ 20
				<u>5640</u>
				1


Wedyn byddant yn symud ymlaen i gofnodi mewn colofnau



Rhannu

Bydd disgyblion yn datrys cyfrifiadau drwy rannu hir

$972 \div 36$



Answer: 27

Odi

Gyda'ch gilydd, gwnewch benillion bach sy'n odli i helpu eich plentyn i gofio rhai o ffeithiau mwyaf anodd y tablau, e.e.

$6 \times 7 = 42$ mae'r drws ar gau! $7 \times 7 = 49$ bwrw glaw! $6 \times 8 = 48$ bwyta llwyth!

Hoff fwyd

Gofynnwch i'ch plentyn beth yw cost ei hoff eitem o fwyd.

Gofynnwch iddo/iddi gyfrifo faint yw cost 7, 8 neu 9 ohonynt.

Faint o newid fyddai o £50?

Gwnewch hyn eto gan ddefnyddio eitem o fwyd nad yw'n ei hoffi.



Gêm gardiau

Defnyddiwch becyn o gardiau heb gynnwys y Brenhinoedd, y Breninesau, y Jaciau na'r Jocats.

- Cymerwch eich tro i rollo'r dis a dewis cerdyn
- Lluoswch y ddau rif gyda'i gilydd
- Ysgrifennwch yr ateb a chadwch gofnod o'r cyfanswm wrth ichi fynd.
- Y cyntaf i gyrraedd 301 yw'r enillydd.



Bargen fawr y ganrif

Pan fyddwch chi'n mynd i siopa neu'n gweld sêl, gofynnwch i'ch plentyn gyfrifo'r gost gyda:

- 50% i ffwrdd
- 25% i ffwrdd
- 10% i ffwrdd
- 5% i ffwrdd



Gofynnwch iddo/iddo egluro sut aeth ati i gael yr ateb.

Anifeiliaid

Cymerwch eich tro i feddwl am anifail.

Defnyddiwch god yr wyddor, $A = 1$, $B = 2$, $C = 3$... hyd at $Y = 29$ (os ydych yn cynnwys J).

Canfyddwch rifau llythyren gyntaf a llythyren olaf eich anifail, e.e. ar gyfer CEFFYL, $C = 3$, ac $L = 15$,

Lluoswch y ddau rif gyda'i gilydd: $3 \times 15 = 45$.

Bydd y person sydd â'r ateb mwyaf yn sgorio pwynt.

Yr un cyntaf i gyrraedd 5 pwynt sy'n ennill.

